# CRYNODEB CYFARFOD

## Cyngor Cymuned Llanycil
## Cyfarfod Nos Fawrth, Mehefin 10fed 2025 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Maesywaen.

Presennol: Rhys Richards (cadeirydd), Huw Charles, Geraint Jones, Euros Puw, Arwel Davies a Huw Edwards a'r clerc.
Ymddiheuriadau: Gwynfryn Williams a Cyng.Elwyn Edwards

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Mai 13eg 2025) - **Cymeradwywyd.**

ii) Datgan Buddiant.

<u>iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.</u>
a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.

<u>iv) Gohebiaeth</u>
<u>a) Cyngor Gwynedd.</u>
i) Clybiau Ieuenctid Cymunedol.
ii) Cronfa 'Gwynedd Ni' i Gynghorau Tref/Cymuned – **trafodwyd nifer o syniadau ar gyfer gwneud cais am yr arian oedd ar gael. Gofynnwyd i'r clerc ymgynghori a swyddogion y gronfa a phwyllgorau'r neuaddau i weld pa adnoddau fyddai o fudd i'r trigolion lleol.**

<u>b) Parc Cenedlaethol Eryri.</u>
i) Cronfa Cymunedau Eryri.
ii) Cynllun Datblygu Lleol Eryri Newydd (2026-2041)

<u>c) Amrywiol.</u>
i) Clwb Criced Y Bala – cais am gymorth i gynnal y clwb.
ii) Tesco Stronger Starts – gwybodaeth am grant sydd ar gael.
iii) Cyngor ar bopeth Conwy a Gwynedd yn uno.

<u>v) Ceisiadau Cynllunio.</u>
Ni chyflwynwyd unrhyw geisiadau i'w trafod.

**<u>vi) Materion Ariannol</u>**
a) Archwiliad Mewnol a'r Ffurflen Flynyddol - **roedd Cyngor Gwynedd wedi archwilio'r cyfrifon a chafwyd cadarnhad i sicrwydd yn nhrefniadau llywodraethu a datganiadau cyfrifyddu'r cyngor. Cytunwyd yn unol â gofynion y datganiadau Cyfrifyddu a Llywodraethu yn y ffurflen Archwiliad Blynyddol. Adroddodd y Clerc y byddai'n anfon yr holl ddogfennau roedd Swyddfa Archwilio Cymru eu hangen ar gyfer yr archwiliad llawn allannol yn ddiweddarach yn y mis. Cytunwyd i arddangos yr hysbysiad archwilio yn y mannau perthnasol.**

**<u>vii) Materion lleol.</u>**
**a) Cytunwyd i anfon y cwynion i'r adrannau perthnasol.**

**CYTUNWYD I GYNNAL Y CYFARFOD NESAF AR NOS FAWRTH GORFFENNAF 8fed YN NEUADD MAESYWAEN.**